**Dr Jacky Tyrie: Cynnal Rhwydwaith – beth, sut a pham?**

Rwy'n academydd ym Mhrifysgol Abertawe lle rwy'n addysgu ac yn ymchwilio i hawliau plant ifanc. Mae fy niddordebau ymchwil yn canolbwyntio ar holl hawliau plant dan 8 oed, gyda diddordeb arbennig yn hawl plant iau i gael eu 'clywed', o dan erthygl 12 o'r CCUHP.

Mae cydweithwyr o Gymru a minnau wedi cael ein hariannu gan Raglen Ymchwil Addysg y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) i gynnal ymchwil gydag athrawon a phlant i archwilio ymgorffori hawliau cyfranogi plant mewn ysgolion ar gyfer plant 5 i 7 oed. Fel rhan o'r ymchwil hwn, roeddem yn awyddus i ddatblygu rhwydwaith cydweithredol o arbenigwyr a gweithwyr proffesiynol a fyddai'n gyfrwng i drafod ac adolygu'r wybodaeth a'r dysgu yn sgil y data a gesglir.

**Y cynllun!**

Y cynllun oedd creu rhwydwaith o unigolion â diddordeb (academyddion, ymchwilwyr, athrawon dan hyfforddiant, athrawon, darparwyr TG, cynrychiolwyr o gyrff anllywodraethol a llunwyr polisi). Roeddem yn gobeithio y byddai'r gweithwyr proffesiynol hyn yn rhyngweithio â'r ymchwil trwy wefan y prosiect a seminarau ar-lein rheolaidd. Yn ystod cyfnod y prosiect, y nod oedd sicrhau bod modd cynnal y rhwydwaith fel mecanwaith ar gyfer ymarfer trawsnewidiol i gefnogi cyfranogiad plant ifanc ar ôl i'r prosiect gael ei gwblhau. Y nod oedd bod modd ymgorffori effaith yr ymchwil tra bod y prosiect yn cael ei gynnal ac wedi hynny.  Rhoddwyd sylw i 3 nod allweddol:

- Cyfnewid gwybodaeth – rhwng aelodau'r rhwydwaith a chyda'r prosiect ymchwil.
- Bod aelodau'n ymwneud â'r effaith ar ymarfer / ymchwil (mecanwaith ar gyfer ymarfer trawsnewidiol).
- Bod yn gynaliadwy ar ôl diwedd yr ymchwil.

Bydd y blog hwn yn archwilio realiti creu, cynnal a hwyluso Rhwydwaith i weithredu'r nodau hyn yn ymarferol. Yna bydd yn myfyrio'n feirniadol ar y problemau a'r rhesymau y tu ôl i'r problemau.

**Realiti: diffinio pwrpas ein rhwydwaith**

Un o'r heriau cyntaf a wynebwyd gennym oedd cwmpas a graddfa'r rhwydwaith yr oeddem yn awyddus i'w greu. Mae ffocws y prosiect ymchwil yn ymwneud â phlant rhwng 5 a 7 oed a'u hawliau cyfranogi. Nod y rhwydwaith oedd cefnogi arferion

trawsnewidiol ymarferwyr i wella profiadau plant o hawliau cyfranogi. I wneud hyn gofynnwyd y cwestiynau canlynol i ni'n hunain...

- Pwy ddylai fod yn aelodau o'r rhwydwaith hwn, i fodloni ei gylch gorchwyl?
- Ai grŵp sy'n addysgu, neu a ddylem gynnwys cydweithwyr ymchwil a staff academaidd?
- A ddylem daflu'r rhwyd yn eang neu ddewis aelodau?

Yn y diwedd, ar ôl ymgynghori â'n grŵp cynghori oedolion (grŵp arbenigol o weithwyr proffesiynol o feysydd ymchwil, addysg a pholisi) penderfynwyd, er mwyn cyflawni'r nodau trawsnewid ac effaith, y byddem yn cynnwys pob unigolyn sydd â diddordeb mewn hawliau cyfranogi plant, ond gan dargedu'n benodol ymarferwyr neu athrawon a oedd yn gweithio gyda phlant ifanc. Mae hyn wedi golygu bod gennym rwydwaith mawr o dros 130 o bobl sy'n cynnwys ystod eang o sectorau, megis athrawon o ysgolion cynradd a rhai nad ydynt yn cael eu cynnal, gweithwyr proffesiynol addysg uwch, academyddion ac ymchwilwyr, staff cynghorau lleol, elusennau, llunwyr polisi a swyddogion y llywodraeth.

**Problemau: Niferoedd uchel ar bapur ond dim llawer o ymgysylltu**

Fel y nodwyd o'r blaen, mae'r rhwydwaith wedi tyfu ac mae dros gant o aelodau. Fodd bynnag, mae'n ymddangos mai nifer fach o aelodau sy'n rhan o'r digwyddiadau a'r cyfathrebu, hynny yw, llai na 40 o aelodau. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

1. e-byst gyda chylchlythyr misol,
2. cyfres o seminarau ar-lein bob chwarter, ac
3. arolygon e-bost achlysurol i gael barn aelodau'r rhwydwaith.

Er bod diffyg ymgysylltu neu ddiffyg presenoldeb i ryw raddau bob amser yn wir am ddigwyddiadau, mae'r ffaith bod gennym gymaint o aelodau ond mai canran fach yn unig sy'n ymgysylltu â ni naill ai o ran gwasanaethau neu ddigwyddiadau yn gwneud i ni ofyn y cwestiwn *pam* fod pobl yn dewis dod yn aelodau os nad ydynt yn gallu neu nad oes ganddynt ddiddordeb mewn cymryd rhan.

**Problemau: rhannu gwybodaeth ond diffyg rhyngweithio a diweddaru**

Yn unol â'r profiad hwn, mae'n ymddangos bod yn well gan aelodau gael gwybodaeth yn hytrach na chymryd rhan mewn gweithgareddau ysgrifenedig, llafar neu wyneb yn wyneb gyda'r prosiect ymchwil. Rydym wedi cael llawer o adborth cadarnhaol am y cylchlythyr rhwydwaith yr ydym yn ei ddarparu yn fisol.

Children's Participation in Schools

Economic and Social Research Council

ESRC Education Research Programme
Empowering educators

Mae'r cylchlythyr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymchwil y prosiect, ac ymchwil a newyddion a digwyddiadau perthnasol eraill. Rydym hefyd wedi cael adborth cadarnhaol o'r digwyddiadau seminar, gyda'r rhai sy'n mynychu seminarau'n ymgysylltu ac yn cymryd rhan mewn trafodaethau a sgyrsiau gyda'i gilydd. Fodd bynnag, nid yw llawer o'n haelodau yn mynychu'r digwyddiadau seminar hyn ac ymddengys nad oes ganddynt ddiddordeb mewn ymgysylltu pellach.

Un gweithgaredd y rhoddwyd cynnig arno, ond na chafodd ei gynnal wedyn, oedd fforwm sgwrsio, wedi'i integreiddio i'n tudalen we. Roedd y fforwm sgwrsio hwn yn gyfle i aelodau rannu digwyddiadau a gwybodaeth, ond hefyd i gael sgyrsiau a chymryd rhan mewn deialog â'i gilydd a'r prosiect. Chymerodd yr un aelod ran yn y fforwm sgwrsio hwn, nid ydym yn union siŵr pam fod diffyg ymgysylltu. Gallwn ddamcaniaethu mai'r rheswm dros hyn oedd nad oeddent yn gweld gwerth ynddo, neu nad oeddent yn gwerthfawrogi'r math hwn o ryngweithio, fodd bynnag, ni allwn ddiystyru bod rhyw reswm technegol neu ymarferol pam y dewisodd aelodau beidio ag ymgysylltu.

**Rhesymau y tu ôl i broblemau: Heriau amser a chapasiti**

Efallai mai un o'r rhesymau posibl dros y lefel isel hon o ymgysylltu oedd diffyg amser gan weithwyr proffesiynol neu eu gallu i reoli eu llwyth gwaith. Un peth rydym wedi'i weld ar draws yr holl weithgareddau, yn y gorffennol ac ar hyn o bryd, yw bod aelodau'n cael trafferth rhoi blaenoriaeth i fod yn rhan o'r rhwydwaith yn hytrach thasgau llwyth gwaith eraill.

**Rhesymau y tu ôl i broblemau: Mater effaith - amserlenni**

Un o nodau'r rhwydwaith oedd effeithio a dylanwadu ar ymarfer addysgu trwy waith y rhwydwaith. Mae her i sicrhau bod ymchwil academaidd yn cael effaith wirioneddol wedi'u dogfennu'n dda, ac un o'r heriau mwyaf yw mesur a deall effaith ymchwil. Mae hyn yn arbennig o wir pan fo'r effaith arfaethedig ar arferion bob dydd. Ond, os mai prif nod y rhwydwaith hwn oedd bod yn rhan o fecanwaith ar gyfer newid trawsnewidiol ac effaith ar ymarfer, mae'n anodd gweld yr effaith hon, ac yn wir ei mesur, tra bod yr ymchwil yn dal i fynd rhagddo a'r canfyddiadau allweddol heb eu cyhoeddi neu eu hyrwyddo eto. Efallai na fyddwn yn gallu gwybod beth fydd gwir effaith yr ymchwil am ychydig o flynyddoedd, ac yn wir gall mesur yr effaith hon fod yn heriol.

**Ble ydym ni nawr? Symud ymlaen!**

Wrth i ni nesáu at 6 mis olaf yr ymchwil, rydym yn teimlo bod y rhwydwaith wedi datblygu'n dda ond nid yw eto wedi ymgysylltu’n benodol â'r ymchwil yn y ffordd yr oeddem wedi gobeithio, oherwydd yr heriau, o ran amser, capasiti a chymhelliant fel yr amlinellwyd uchod. Fodd bynnag, rydym yn gobeithio yn y 6 mis olaf hyn ac i'r dyfodol, wedi i’r cyllid ddod i ben, y bydd effaith yr ymchwil ar ein haelodau ac ar eu hymarfer yn dechrau dod yn fwy amlwg.